


CYNGOR TREF PORTHMADOG



8fed o Ionawr 2020


Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chi i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref am 6:30 yr hwyr Nos Fawrth ,14eg o Ionawr 2020 yn Ystafell Glaslyn , Y Ganolfan, Porthmadog. Bydd cynrychiolwyr o Bwyllgor Breuddwydion Bro yn bresennol am hanner awr cyn y cyfarfod rheolaidd fydd yn cychwyn am 7:00.

RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau.**
2. **Adroddiad y Cadeirydd.**
3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod rheolaidd diwethaf (10fed o Ragfyr 2019).**
4. **Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**
5. **Materion i'w dwyn gerbron :**
 - Cyng. Richard Williams – cynnig ein bod yn dilyn y rheolau sefydlog 17.2 yn dilyn adroddiad BBC parthed traeth y Greigddu.
 - Cyng. Richard Williams - cynnig ysgrifennu at arweinydd portffolio tai Cyngor Gwynedd ein bod ni angen gweld cynllun datblygu tai fforddiadwy modern yn ein cymuned.
 - Cyng. Alwyn Gruffydd - Cynnig cysylltu efo Cyngor Gwynedd am ddiweddariad ac amserlen y gwaith yn y Nyrseri.
 - Cyng. Gareth Williams – problemau trafndiaeth yng Nghlog y Berth.
 - Sedd wag Ward Ddwyreiniol.
6. **Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. (Dyddiad cau Rhaglen mis Chwefror 2020 – 4ydd o Chwefror 2020).**
7. **Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).**
8. **Gohebiaeth :**
 - (1) Rhian Williams, Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, CG – amserlen newydd Arriva (ymateb i lythyr parthed bysiau rhaglen Tachwedd, cof.139).
 - (2) Gill Harries, Dirprwy Brif Weithredwr, BIPBC - gweddillion sigarêts - Ysbyty Alltwn (ymateb i lythyr rhaglen Gorffennaf, cof. 52).

CYNGOR TREF PORTHMADOG



- (3) Rhian Williams, Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, CG – llochesi bws Tremadog (ymateb i lythyr rhaglen Pwyllgor Eiddo, Tachwedd 2019).
- (4) Rhian Williams, Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, CG – gwasanaeth bws i ysbyty Alltwen (ymateb i lythyr rhaglen Rhagfyr, cof.177).
- (5) Rod Taylor, Cyfarwyddwr Ystadau BIPBC - tir model dairy (ymateb i lythyr rhaglen Gorffennaf, cof.68).
- (6) Y Ganolfan – ymateb i lythyr rhaglen Chwefror ,cof.280.
- (7) Amgueddfa'r Môr Porthmadog – cylchlythyr Gaeaf 2019.
- (8) Un Llais Cymru – diwrnod VE 8.5.2020.

9. Materion Ariannol :

Biliau i'w talu :

Cyngor Gwynedd – costau torri gwellt Cae Bodawen , Bryn Coffa Cob Crwn a chynnal llwybrau	=	£6,777.37
Xerox Finance - llogi llungopiwr 1.2.2020- 30.4.2020	=	£126.00
Glenda Burke – inc ar gyfer y printer 1.11.19 – 30.11.19 (£10.49) a hanner costau ffôn/we 26.12.19 – 25.1.2020 (£32.25)	=	£42.74
Glenda Burke – cyflog Clerc mis Rhagfyr 2019	=	£599.00
Cyllid a Thollau EM – treth incwm ac yswiriant gwladol	=	£155.00

Derbyniadau:

Llog Banc Rhagfyr 2019	=	£5.57
------------------------	---	-------

10. Ceisiadau Cynllunio :

- i) **C19/1207/44/LL** – Cais ar gyfer codi tŷ annedd deulawr.
Cymerau, Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UY.

Yn gywir,

Glenda Burke
Clerc